Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Tasglu Data Cynhwysol: Sut y gallwn fod yn fwy cynhwysol yn ein data?






## Llyfryn hawdd ei ddarllen

**Medi 2021**

# Cynnwys




Pwy ydym ni a beth wnaethom ni: tudalen 3



Beth oeddem eisiau gwybod: tudalen 4



Gyda phwy siaradom ni: tudalen 5



Beth ddarganfyddom ni: tudalen 6



Y newidiadau rydym yn eu hargymell: tudalen 17




Rhagor o wybodaeth: tudalen 17





Yn y llyfryn hawdd ei ddarllen hwn, mae geiriau allai fod yn anodd eu deall mewn print **trwm.** Rydym yn egluro beth yw ystyr y geiriau hyn ar ôl eu defnyddio.

# Pwy ydym ni a beth wnaethom ni



Grŵp o bobl ydym ni o'r enw y **Tasglu Data Cynhwysol. Data** yw ffeithiau neu ffigurau.

Roeddem eisiau deall pa ddata sydd yna yn y DU ynghylch gwahanol fathau o bobl. Roeddem hefyd eisiau gwybod ble mae'r bylchau a sut y gellir gwella pethau yn y dyfodol i fod yn fwy cynhwysol.



Gofynnodd **Ystadegydd Gwladol** y DU i ni edrych i weld sut i wneud data'r DU yn well ac i gynnwys mwy o wahanol fathau o bobl. Fe wnaethom hyn trwy ofyn **4** cwestiwn ynghylch data yn y DU.




Yr **Ystadegydd Gwladol** sy'n gyfrifol am gasglu gwybodaeth ynghylch pobl sy'n byw yn y DU.

Gweithiom gyda Swyddfa'r Ystadegau Gwladol i gwblhau'r gwaith hwn.




Yn y llyfryn hwn, rydym yn dweud wrthych chi beth ddarganfyddom ni. Rydym hefyd yn sôn am y newidiadau rydym yn meddwl y dylid eu gwneud er mwyn gallu casglu a defnyddio data yn y ffordd orau yn y dyfodol.

# Beth oeddem eisiau gwybod




Roedd y **Tasglu Data Cynhwysol** eisiau gwybod:

1. Pa ddata sydd ar goll a fyddai o help i ddeall anghenion pobl yn well.




2. Beth sy'n ei wneud yn anodd i bobl rhoi'r data.



3. Sut i ddefnyddio'r data sydd eisoes gennym i ddeall anghenion gwahanol fathau o bobl.



4. Sut i ddysgu oddi wrth enghreifftiau o waith da.

# Gyda phwy siaradom ni



Siaradom gyda llawer o bobl o wahanol gefndiroedd ym mhob rhan o'r DU.



Siaradom gyda phobl a allai ddefnyddio'r data, fel sefydliadau cymunedol ac elusennau. Hefyd, siaradom **â'r cyhoedd,** a allai fod yn rhoi'r data.

Ystyr **y cyhoedd** yw pobl gyffredin fel y bobl sy'n byw yn eich ardal chi.



Siaradom gyda'r llywodraeth a grwpiau eraill o bobl sy'n casglu ac yn defnyddio'r data.





Siaradom gyda phobl ar-lein a gyda phobl ag ysgrifennodd atom ni i ddweud eu dweud.

# Beth ddarganfyddom ni

## 1. Pa ddata sydd ar goll a fyddai'n helpu i ddeall anghenion pobl yn well



Y gorau yw ein data, y mwyaf y byddwn ni'n deall beth mae pobl yn ei feddwl a beth yw anghenion gwahanol grwpiau o bobl.




Rydym yn gweld nad oes llawer o ddata ynghylch rhai grwpiau yn y DU. Does dim digon o ddata ar gyfer grwpiau eraill neu nid yw ansawdd y data'n ddigon da.



Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys pobl fel:

- pobl sy'n drawsryweddol
- pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal
- pobl sydd wedi bod mewn carchar



- pobl sy'n ddigartref
- pobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- pobl sydd wedi gadael cartref am fod rhywun yno wedi'u hanafu



Does yna ddim llawer o ddata ar rai plant, fel:



- plant anabl
- plant sy'n derbyn gofal
- plant sydd wedi cyrraedd yma o wlad arall
- **Gofalwyr** ifanc
- plant o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr



Mae **gofalwr** yn gofalu am ac yn cefnogi person arall sydd angen help gyda'u bywyd pob dydd.



Mae data hefyd yn brin am bobl nad ydyn nhw, neu nad ydyn nhw'n gallu, mynd ar-lein. Gallai **COVID-19**, sydd hefyd yn cael ei alw'n coronafeirws, fod wedi gwneud hyn yn waeth.




Feirws yw **COVID-19** sy'n effeithio ar bobl dros y byd i gyd. Roedd yn rhaid i bobl aros adref lawer mwy oherwydd COVID-19, felly mae mwy o ddata'n cael ei gasglu ar-lein.




Roeddem hefyd yn gweld nad oedd yna ddigon o ddata, neu nad oedd ansawdd y data'n ddigon da, ynghylch rhai pethau. Er enghraifft, does dim llawer o ddata ynghylch faint o arian sydd gan bobl.



Does dim llawer o ddata chwaith ynghylch cyfeiriadedd rhywiol pobl ac ynghylch ag ydyn nhw'n cael eu trin yn wahanol oherwydd hynny.



Ac mae data'n brin ynghylch sut mae mamau newydd a merched sy'n feichiog yn cael eu trin.



Gallai data fod yn brin oherwydd fod cwestiynau'n **wirfoddol**.



Ystyr **gwirfoddol** yw nad oes rhaid i chi ateb cwestiwn oni bai eich bod chi'n dymuno.



Mae data’n brin ynghylch crefydd pobl ac ag ydyn nhw’n cael eu trin yn wahanol oherwydd hynny.



Gall ddata sy’n cael eu rhoi ynghylch pobl eraill fod yn anghywir ac yn anghyflawn weithiau. Gallai hynny ddigwydd pan fydd pobl yn ateb cwestiynau ar ran rhywun arall, fel rhieni’n ateb ar ran eu plant.



Gyda bylchau yn y wybodaeth, neu ddata o ansawdd gwael, efallai na fyddwn ni’n gwybod beth fyddai’r ffordd orau o helpu pobl gyda gwahanol fathau o anghenion.

# Beth ddarganfyddom ni

## 2. Beth sy’n ei gwneud yn anodd i bobl sy’n darparu data




Mae’n bwysig casglu data oddi wrth wahanol grwpiau o bobl a gwneud yn siŵr bod y data’n cael eu defnyddio i ddeall eu nodweddion a’u hamgylchiadau.



Mae yna lawer o resymau pam nad yw pobl yn darparu data. Efallai nad yw pobl eisiau neu nad ydyn nhw’n gallu gwneud hynny.



Efallai nad yw rhai pobl eisiau darparu data oherwydd eu bod yn meddwl nad yw’r llywodraeth yn eu trin yn deg. Neu eu bod yn meddwl y gallai’r llywodraeth ddefnyddio eu data i wneud eu bywyd yn anodd.



Gallai hyn fod yn wir am unrhyw un, ac yn enwedig am grwpiau o bobl sy’n cael eu **tan-gynrychioli**.

Ystyr **tan-gynrychioli** yw fod gennyn ni lai o ddata ynghylch y mathau hyn o bobl nag am fathau eraill.



Efallai na fydd rhai pobl eisiau rhoi data oherwydd eu bod yn cael eu holi'n rhy aml. Efallai bod yr un cwestiynau'n cael eu gofyn dro ar ôl tro a'u bod yn teimlo bod hynny'n dangos nad oes neb yn gwrando arnyn nhw.




Efallai na fydd rhai pobl eisiau rhoi data oherwydd eu bod yn teimlo na fydd unrhyw beth da'n digwydd iddyn nhw na'u **cymuned** pe bydden nhw'n gwneud.

Eich **cymuned** yw'r ardal ble rydych chi'n byw a'r bobl rydych chi'n eu hadnabod.




Efallai na fydd rhai pobl eisiau rhoi data oherwydd fod y ffordd y mae'r data'n cael eu casglu yn eu hatal. Gallai hyn gynnwys:

- **arolygon** ysgrifenedig pan nad yw pobl yn gallu darllen



- arolygon mewn ieithoedd nad yw pobl yn eu deall

- arolygon ar-lein pan nad yw pobl yn defnyddio cyfrifiaduron

- cwestiynau anodd eu deall mewn arolygon




- arolygon sydd wedi'u paratoi heb ddeall yn iawn anghenion y grŵp a'u cymuned

Mae **arolwg** yn casglu data trwy ofyn cwestiynau i bobl. Gall arolwg helpu i gasglu gwybodaeth ynghylch gwahanol bynciau.




Efallai na fydd rhai pobl eisiau rhoi data oherwydd nad ydyn nhw'n hoffi'r geiriau sy'n disgrifio pethau yn eu cylch fel **nodweddion personol**.



Mae oedran, crefydd a chefndir yn enghreifftiau o **nodweddion personol**.



Wrth gasglu rhai data mae angen defnyddio rhai geiriau neu ymadroddion newydd i ddisgrifio pobl wrth sôn am bethau fel **ethnigrwydd** ac anabledd. Bydd hyn yn helpu i ddeall yn well beth mae pobl eu hangen.



Eich **ethnigrwydd** yw'r diwylliant rydych chi'n teimlo'n rhan ohono ac efallai sy'n cysylltu ag o le ddaeth eich teulu.



Mae'n bwysig fod y dewisiadau sy'n cael eu rhoi am nodweddion personol yn disgrifio sut mae pobl yn meddwl amdanyn nhw eu hunain.

# **Beth ddarganfyddom ni**
## 3. Sut i ddefnyddio’r data sydd eisoes wedi’u casglu i ddeall anghenion gwahanol bobl yn well




Mae’n bwysig defnyddio disgrifiadau tebyg wrth gasglu data ym mhob rhan o’r DU ynghylch pethau fel nodweddion personol.



Os yw disgrifiadau gwahanol yn cael eu defnyddio, mae’n anodd cymharu data.



Mae’n bwysig, pan fyddwn ni’n cymharu data, ein bod yn deall beth yn union sydd wedi’u casglu. Er enghraifft, mae anabledd yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl.



Pan mai dim ond ychydig o bobl sy’n rhoi data, efallai nad yw ansawdd y data’n ddigon da. Efallai na fydd gennych ddigon o ddata i ddeall beth mae’n eu dangos.



Gydag ond ychydig o bobl, efallai na fyddwch yn cael data oddi wrth grwpiau o bobl neu ardaloedd yn y DU sy’n bwysig.



Gydag ond ychydig o bobl, efallai na fyddwch yn gallu deall a chymharu grwpiau a’u nodweddion personol yn iawn.



Mae’n bwysig bod data’n ddiweddar ac yn gyfoes. Os yw data’n hen, efallai nad yw’n gywir nac yn ddefnyddiol bellach.




Mae’n bwysig casglu gwahanol fathau o ddata i allu deall bywydau pobl.



Dwedodd bobl wrthym eu bod yn meddwl y dylai fod fwy o wybodaeth ynghylch sut mae pobl yn disgrifio eu bywydau yn eu geiriau eu hunain.




Mae'n bwysig fod pobl sy'n casglu ac yn trafod data wedi cael eu hyfforddi a bod ganddyn nhw ddigon o adnoddau.



Mae rhai pobl sydd eisiau defnyddio a chymharu data yn ei chael yn anodd cael y data y maen nhw ei eisiau. Dydyn nhw ddim yn gwybod pa ddata sydd yna nag ym mhle y mae.




Mae'n bwysig defnyddio iaith sy'n hawdd ei deall wrth sôn am ddata ac am beth mae'n eu dangos.




Mae'n bwysig dangos data a syniadau mewn gwahanol ieithoedd a ffurfiau fel bod pawb yn gallu eu darllen a'u deall.

# Beth ddarganfyddom ni

## 4. Sut i ddysgu o enghreifftiau o waith da



Mae’n bwysig ein bod yn dysgu o brofiadau pobl eraill er mwyn gwella ein ffordd o gasglu a defnyddio data.



Fe allwn ddefnyddio ein profiad ni ein hunain a phrofiadau pobl eraill.



Roedd rhai pobl yn sôn wrthym am rai ffyrdd da o weithio ac rydym yn gobeithio dysgu oddi wrth hynny yn y dyfodol.



Trwy ddysgu o sut roedd pobl eraill yn llwyddo, fe allwn ni gynnwys mwy o wahanol fathau o bobl a chael gwell gwybodaeth amdanyn nhw.

# Y newidiadau rydym yn eu hargymell




1. Gwneud yn siŵr fod pobl yn gallu rhoi eu data'n ddiogel ac y bydd yn cael eu trin yn deg.



2. Gweithio gyda'n gilydd i newid y ffordd rydym yn casglu a defnyddio data ledled y DU ar yr un pryd.



3. Gwneud yn siŵr fod data'n cael eu casglu oddi wrth yr holl gwahanol grwpiau o bobl.



4. Gwneud yn siŵr fod digon o ddata o ansawdd da'n cael eu casglu. Bydd hyn yn helpu i ddeall yn well sut y mae gwahanol nodweddion personol pobl yn cyd-fynd â'i gilydd a sut y mae'n gallu effeithio ar fywydau pobl.




5. Gwneud yn siŵr fod pobl yn defnyddio geiriau ac ymadroddion yn iawn, a'u bod yn hawdd eu deall i ddisgrifio pethau.



6. Ceisiwch ddefnyddio ffyrdd gwahanol a newydd o gasglu data er mwyn i ni allu deall yn well beth mae pobl eu hangen.



7. Cadwch lygad yn rheolaidd i wirio fod y wybodaeth sy'n cael ei gasglu a sut mae'n cael ei ddisgrifio dal i fod yn berthnasol. Gwiriwch a oes angen newid er mwyn aros yn gyfoes.




8. Gwnewch yn siŵr fod y data a'r wybodaeth yn cael eu cynnig mewn gwahanol ieithoedd a ffurfiau fel bod pawb yn gallu eu darllen a'u deall.



Os yw'r 8 peth hyn yn cael eu gwneud, dylai hynny helpu i wneud data'r DU yn well yn y dyfodol a golygu fod mwy o bobl yn gallu cymryd rhan.

# Rhagor o wybodaeth




Diolch i bawb sy'n wedi'n helpu.



Gallwch ddarllen mwy ynghylch ein gwaith, ar-lein:
**uksa.statisticsauthority.gov.uk**




Os ydych eisiau'r wybodaeth mewn iaith neu mewn ffurf gwahanol, anfonwch e-bost at y cyfeiriad hwn:
**equalities@ons.gov.uk**



Neu ffoniwch y rhif ffôn hwn:
**0800 298 5313**